OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 606 (Cy. 29)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Cynlluniau Cymorth Ymddygiad) (Diwygio) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *27 Chwefror 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2001* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 527A(4) a (5) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Cynlluniau Cymorth Ymddygiad) (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yng Nghymru yn unig.

**Diwygio Rheoliadau**

**2.** Yn rheoliad 3 (ymgynghori) o Reoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Cynlluniau Cymorth Ymddygiad) 1998(**3**) —

(i) Ym mharagraff (2)(n) yn lle'r geiriau "clerk to the justices" rhoddir y geiriau "justices' chief executive"; a

(ii) Dilëir paragraff (5) .

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 527A gan adran 9 o Ddeddf Addysg 1997 (p.44) ac mae diwygiadau dilynol nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau presennol. Ar gyfer ystyr "prescribed" gweler adran 579(1) o Ddeddf 1996.

(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1998/644.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**))

*D Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

27 Chwefror 2001

(**4**) 1998 p.38.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Cynlluniau Cymorth Ymddygiad) 1998 mewn perthynas â Chymru i drosglwyddo swyddogaethau gweinyddol clercod ustusiaid i brif weithredwyr ustusiaid yn unol ag adran 90 o Ddeddf Cyfle i Gael Cyfiawnder 1999 (p.22) ac Atodlen 13 iddi.

Mae is-adran (5) o'r adran honno yn darparu mai holl swyddogaethau clercod ustusiaid yw eu swyddogaethau gweinyddol at ddibenion yr adran honno ar wahân i'r rhai sy'n swyddogaethau cyfreithiol o fewn yr ystyr a roddir iddynt gan adran 48(2) o Ddeddf Ynadon Heddwch 1997 (p.25), fel y'i hamnewidiwyd gan adran 89(1) o Ddeddf 1999.